

Adroddiad Teithio Llesol 2014/15 – Cyngor Sir Ceredigion

• Cronfa Trafnidiaeth Lleol – Pecyn Teithio Llesol Ardal Aberystwyth

Sicrhawyd £100,000 o gyllid gan Lywodraeth Cymru (gyda £30,000 ar ben hynny mewn arian cyfatebol gan Gyngor Sir Ceredigion) i fedru gwneud y mân welliannau hyn:

- Gosod gwell arwyddion ar y lôn gyswllt rhwng Rhodfa Padarn a Llanbadarn Fawr.
- Cael gwared â'r pyst gât diangen o'r llwybr ar y lôn gyswllt rhwng Parc yr Onnen a Blaendolau.
- Addasu'r gât mochyn ger mynedfa Meysydd Chwaraeon Blaendolau fel bod modd mynd drwyddi â beic.
- Cael gwared â thri pholyn dur ar Lwybr Rheidol a gosod dau bostyn yn eu lle fel y gall beiciau fynd heibio.

Gwnaethpwyd gwaith ar raddfa fwy hefyd, gan gynnwys:

- (AB6) Lôn feics newydd ar Heol Minafon, yn mynd ar ymyl y ffordd gyda llif y traffig, i gysylltu dau ran o Lwybr Rheidol. Mae hwn hefyd yn rhan o'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol, sef Llwybr 81 rhwng Amwythig ac Aberystwyth.

Cyn:



Ar ôl:



- (AB9 Cam 1) Aethpwyd ati i ledu darn blêr o'r llwybr rhwng y Starling Cloud a Camau Bach a rhoddwyd wyneb newydd arno i hwyluso'r ffordd i Blascrug.

Cyn:



Ar ôl:



- (AB14) 'Cam 1' Plascrug rhwng yr Ysgol Gymraeg a'r Ganolfan Hamdden. Aethpwyd ati i ledu'r llwybr aml-ddefnydd i fodloni'r Canllawiau Dylunio Teithio Llesol. Adeiladwyd 2 lwyfan groesi uwchlaw lefel y ffordd. Gosodwyd pyst dur er diogelwch beicwyr a cherddwyr, ac er mwyn atal pobl rhag parcio'u cerbydau ar y llwybrau. Yn yr Ysgol Gymraeg arferai fod yno loches gyda lle i 24 o feiciau, a doedd hynny ddim yn ddigon i ateb y galw. Felly, symudwyd y lloches i Ganolfan Hamdden Plascrug a chodwyd lloches newydd â lle i 60 o feiciau yn yr Ysgol Gymraeg. Gosodwyd clustogau arafu fel rhan o'r mesurau gostegu traffig a gyflwynwyd wrth greu Parth 20mya.

Ar ôl cwblhau'r cynllun:





Gwaith nad ariannwyd drwy grant:

Gosod Standiau Beics yng Nghanolfan Gymunedol Penparcau

Ariannodd Cyngor Sir Ceredigion waith i osod sylfaen concrit a thri stand beics yng Nghanolfan Gymunedol Penparcau – fel y gwelir yn y llun isod:



Gosodwyd tri stand beics gerllaw Neuadd Marchnad Aberystwyth.

Hefyd, gosodwyd deg o standiau beics mewn amrywiaeth o lefydd yn Aberteifi, a saith ohonynt yn Llanbedr Pont Steffan.

Gari Jones
Peiriannydd Cynorthwyol Strategaeth Trafnidiaeth
Gwasanaethau Technegol
Cyngor Sir Ceredigion

Ionawr 2016

